# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# Y CABINET

# DYDD MERCHER, 9 MEHEFIN 2021

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards, A.Wingrave, M.Harvey a/ac L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, C.Griffiths, H.Jenkins, K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, C.Plowman, Ms.L.Willis, J.Woodman-Ralph a/ac S.Brennan

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd i benodi'r Cyng. E V Latham yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr Aelodau canlynol ddatganiad o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod ynglŷn â'r adroddiad brys – Rhaglen Weithwyr – Virgin Pulse Go.

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd E V Latham | Gan ei fod yn aelod o Grŵp Iechyd a Lles Staff CNPT ond nid oedd o'r farn bod ei fudd yn rhagfarnol. |
| Y Cynghorydd C Clement-Williams | Gan ei bod yn aelod o Grŵp Iechyd a Lles Staff CNPT ond nid oedd o'r farn bod ei budd yn rhagfarnol. |
| Y Cynghorydd D Jones | Gan ei bod yn aelod o Grŵp Iechyd a Lles Staff CNPT ond nid oedd o'r farn bod ei budd yn rhagfarnol. |

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd A R Lockyer | Gan ei fod yn aelod o Grŵp Iechyd a Lles Staff CNPT ond nid oedd o'r farn bod ei fudd yn rhagfarnol. |
| Y Cynghorydd P A Rees | Gan ei fod yn aelod o Grŵp Iechyd a Lles Staff CNPT ond nid oedd o'r farn bod ei fudd yn rhagfarnol. |
| Y Cynghorydd P D Richards | Gan ei fod yn aelod o Grŵp Iechyd a Lles Staff CNPT ond nid oedd o'r farn bod ei fudd yn rhagfarnol. |
| Y Cynghorydd A Wingrave | Gan ei bod yn aelod o Grŵp Iechyd a Lles Staff CNPT ond nid oedd o'r farn bod ei budd yn rhagfarnol. |
| Y Cynghorydd L Jones | Gan ei bod yn aelod o Grŵp Iechyd a Lles Staff CNPT ond nid oedd o'r farn bod ei budd yn rhagfarnol. |

Gwnaeth y Swyddogion canlynol ddatganiad o fuddiant hefyd ar ddechrau'r cyfarfod ynghylch yr Adroddiad Brys – Rhaglen Lles Gweithwyr – Virgin Pulse Go gan eu bod yn aelodau o Grŵp Iechyd a Lles Staff CNPT.

M Pearce
A Thomas
A Jarrett
C Griffiths
S Brennan
L Willis
L Woodman-Ralph
C Plowman

| | |
|---|---|
| K Jones, Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | Gan ei bod yn Drysorydd Grŵp Iechyd a Lles Staff CNPT. |

## 3. CRONFA CODI'R GWASTAD Y DU - CYNIGION PROSIECTAU CASTELL-NEDD PORT TALBOT

### Penderfyniadau:

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r  Asesiad Effaith Integredig:

1. Cymeradwyo ceisiadau etholaethau Castell-nedd ac Aberafan i'r Gronfa Codi'r Gwastad fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Rhoddir awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod(au) Cabinet perthnasol, i gymeradwyo'r achos busnes i'w gyflwyno i Lywodraeth y DU erbyn y dyddiad cau o 18 Mehefin.

3. Rhoddir awdurdod i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Arweinydd a'r Aelod(au) Cabinet perthnasol, i ymrwymo i gytundebau grant neu ddogfennaeth gysylltiedig a allai fod yn angenrheidiol i dynnu arian o'r Gronfa Codi'r Gwastad.

### Rheswm dros y penderfyniadau:

Galluogi'r cyngor i gyflwyno ceisiadau etholaethau Castell-nedd ac Aberafan i'r Gronfa Codi'r Gwastad yn ffurfiol i Lywodraeth y DU.

### Rhoi Penderfyniadau ar Waith:

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

### Ymgynghoriad:

Mae'r eitem hon wedi bod yn destun ymgynghoriad allanol. Cronfa Codi'r Gwastad - mae'n ofynnol i awdurdodau sy'n gwneud cais ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid lleol wrth ddatblygu eu buddsoddiadau arfaethedig ar gyfer y Gronfa Codi'r Gwastad (a dangos tystiolaeth o ymgysylltu), gan gynnwys ceisio cymeradwyaeth Aelod Seneddol fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

4. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r materion sydd wedi'u cynnwys yng Nghofnod Rhif. 5 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi hyn yn y cyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm:**

Oherwydd yr elfen amser.

5. **RHAGLEN LLES GWEITHWYR - VIRGIN PULSE GO**

**Penderfyniadau:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Rhoddir cymeradwyaeth i'r cyngor ymrwymo i gytundeb i brynu 300 o drwyddedau rhaglen iechyd a lles Virgin Pulse Go.

2. Caiff y gwaith ei wneud gyda Grŵp Iechyd a Lles Staff CNPT i sicrhau'r budd mwyaf posib o'r rhaglen.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Cefnogi iechyd a lles gweithwyr y cyngor.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Gyda chytundeb y Cadeirydd Craffu perthnasol. Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar unwaith er mwyn caniatáu i'r gwaith o gydlynu a chyflawni'r rhaglen ddechrau ym mis Gorffennaf 2021.

6. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwaherddir y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

7. **CRONFA ADFYWIO CYMUNEDOL Y DU - CYMERADWYO PROSIECTAU CASTELL-NEDD PORT TALBOT SYDD AR Y RHESTR FER (EITHRIEDIG O DAN BARAGRAFF 14)**

**Penderfyniadau:**

1. Bod y rhestr fer o brosiectau Castell-nedd Port Talbot i'w chyflwyno i Gronfa Adfywio Cymunedol Llywodraeth y DU yn cael ei chymeradwyo.

2. Bod Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod(au) Cabinet perthnasol, yn cael awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo cyflwyno ceisiadau Cronfa Adfywio Cymunedol y DU i lywodraeth y DU erbyn y dyddiad cau sef 18 Mehefin 2021.

3. Bod Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Arweinydd a'r Aelod(au) Cabinet perthnasol, yn cael ei awdurdodi i ymrwymo i gytundebau grant neu ddogfennau cysylltiedig a allai fod yn angenrheidiol i dynnu arian o Gronfa Adfywio Cymunedol y DU.

**Rheswm dros y penderfyniadau:**

Galluogi Swyddogion i gyflwyno rhestr fer Ceisiadau Castell-nedd Port Talbot i Lywodraeth y DU i wneud cais i Gronfa Adfywio Cymunedol y DU.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

**CADEIRYDD**